Prif Flaenoriaethau'r Cyngor Ysgol

2016-2017

- Rhannu copiau o Bolisi Gwrth-fwlio Plant Gyfeillgar i bob disgybl a chreu bocsys pryderon newydd i bob dosbarth.
- Parhau i fonitro presenoldeb dosbarthiadau.
- Trefnu amserlen, cofnod a thalebau er mwyn annog pob disgybl i redeg y trac o leiaf dwywaith yr wythnos. Cadw cofnod er mwyn monitro ffitrwydd dysgwyr.
- Hydref 21 — Gwasanaeth Diolchgarwch. Llythyru er mwyn annog pobl i ddod a thuniau bwyd i'r ysgol ar gyfer yr elusen Banc Bwyd, Caernarfon. Trefnu fod aelod o'r elusen yn mynychu'r gwasanaeth i gasglu'r bwyd.
- Tachwedd 14-18—Wythnos Gwrth-fwlio. Trefnu fod yr athrawon yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beth yw bwlio a thrafod beth sy'n gwneud ffrind da.
- Chwefror 7fed –Diwrnod Rhyngwladol Diogelwch y We. Trefnu ymweliad gan PC Pritchard a bod ef a'r athrawon yn rhannu gwybodaeth o sut i fod yn ddiogel ar y We a beth i wneud mewn achosion o fwlio seibr.
- Aelodau'r Cyngor Ysgol i lunio Polisi Plant-gyfeillgar Diogelwch y We.
- Tachwedd 18 —Trefnu diwrnod Plant mewn Angen er mwyn codi arian tuag at yr elusen. Annog y disgyblion i wisgo pyjamas i'r ysgol a chyfrannu o leiaf £1 tuag at yr elusen. Cynnal gweithgaredd hwyl lliwio Pudsey.
- Annog y Cynllun Fill a Welly er mwyn archebu geifr i bobl Affrica.
- Trefnu i aelod o elusen T4U ymweld â'r ysgol er mwyn cynnal gwasanaeth ac yna casglu'r bocsys Nadolig.
- Meddwl am ffyrdd o ddatblygu hyder plant i siarad yn gyhoeddus.
- Ymateb i syniadau'r Cynghorau Dosbarth.